**Jeremy Miles AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**Cabinet Secretary for Health and Social Care**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1492
Ein cyf/Our ref JMHSC/11065/24

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd
y Pwyllgor Deisebau

deisebau@senedd.cymru

07 Ionawr 2025

Annwyl Carolyn,

**PARTHED: Rhif P-06-1492 Cadw mynediad 24 awr i'r Uned Mân Anafiadau yn Ysbyty'r Tywysog Philip, Llanelli**

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 5 Rhagfyr ynghylch y ddeiseb uchod.

Fel y gwyddoch, y byrddau iechyd sy'n gyfrifol am sicrhau bod gwasanaethau clinigol diogel o ansawdd da yn cael eu darparu ar gyfer eu poblogaeth leol.

Cafodd y newidiadau dros dro i oriau agor uned mân anafiadau Ysbyty’r Tywysog Philip eu cyflwyno gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar sail diogelwch cleifion. Fe godwyd y materion hyn gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn dilyn arolygiad ym mis Mehefin 2023, a chawsant eu codi hefyd gan staff sy'n gweithio yn yr uned. Cododd y sefyllfa o ganlyniad i brinder sylweddol a pharhaus yn nifer y staff meddygol, gan arwain at bryderon clinigol mewn perthynas â diogelwch cleifion.

Yn ogystal â hynny, mae tystiolaeth bod nifer sylweddol o'r bobl a oedd yn mynychu'r uned yn dioddef aciwtedd uwch nag yr oedd yr uned i fod i ddarparu gwasanaeth ar ei gyfer, ac roedd hynny wedi arwain at drosglwyddiadau 999 i'r adran argyfwng agosaf, gan achosi oedi yn y driniaeth. Atgyfnerthwyd y safbwynt hwn gan argymhellion a wnaed yn sgil ymweliad arolygu gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, a'r ohebiaeth bellach oddi wrth yr Arolygiaeth yn gofyn am sicrwydd ar faterion diogelwch cleifion.

Bydd yr uned mân anafiadau yn cau dros nos (8pm i 8am) am gyfnod o chwe mis o 1 Tachwedd 2024. Ni fydd y newid dros dro yn effeithio ar yr uned asesiadau meddygol acíwt, a bydd cleifion sy'n sâl iawn yn feddygol yn dal i gael eu cludo i Ysbyty'r Tywysog Philip, 24 awr y dydd, ar gyfer asesiad a thriniaeth fel yr oeddent cyn y newid. Mae'r achosion hyn fel arfer yn dod i mewn i'r uned drwy ambiwlans neu drwy atgyfeiriad gan feddyg teulu.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Bydd unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n deall bod y bwrdd iechyd wedi ymgysylltu â Llais a'r cyhoedd i egluro pam fod angen cyflwyno’r newid hwn. Rwyf hefyd yn deall bod gwaith wedi dechrau ar yr opsiynau tymor hir posibl ar gyfer yr uned, a bydd y bwrdd iechyd yn cynnal gwerthusiad o'r opsiynau o dan arweiniad clinigol er mwyn creu model tymor hirach iddi.

Rwy'n disgwyl i'r bwrdd iechyd fonitro'r newid dros dro i'r gwasanaethau yn barhaus, ac i ymgysylltu'n llawn â'i gymunedau lleol yn unol â'r canllawiau cenedlaethol.

Bydd fy swyddogion hefyd yn parhau i fonitro'r newid dros dro i'r oriau agor.

Yn gywir**,**



**Jeremy Miles AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Care